O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 1781 (Cy. 170)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer talu ffioedd am arolygiadau o ran ceisiadau ar gyfer cydnabyddiaeth yn gompartment o dan Orchymyn Compartmentau Dofednod (Cymru) 2010. Mae'r Gorchymyn hwnnw yn gweithredu Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 616/2009 sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cydnabod compartmentau dofednod sy'n bodloni safonau uchel mewn bioddiogelwch (OJ Rhif L 181, 14.7.2009, t. 16).

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio ar gyfer yr offeryn hwn.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2010 Rhif 1781 (Cy. 170)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2010

Gwnaed *8 Gorffennaf 2010*

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *9 Gorffennaf 2010*

Yn dod i rym *30 Gorffennaf 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 84 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Ffioedd) (Cymru) 2010. Mae'n gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 30 Gorffennaf 2010.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn:—

ystyr "safle cynhyrchu" ("*production site*") yw mangre lle mae dofednod yn cael eu cadw at ddibenion bridio, magu, pesgi neu gynhyrchu wyau ac sy'n destun cais o dan Orchymyn Compartmentau Dofednod (Cymru) 2010; ac

(**1**) 1981 p. 22. Mae swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Minister" a "the Ministers", i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38) drwy Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2. Yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), trosglwyddwyd hwy i Weinidogion Cymru.

ystyr “safle gweinyddol” (“*administrative site*”) yw mangre lle mae dogfennau neu gofnodion sy’n ymwneud â safle cynhyrchu yn cael eu cadw.

Ffioedd

3. Mae'r ffioedd ar gyfer arolygiadau yn rhinwedd Gorchymyn Compartmentau Dofednod (Cymru) 2010(**1**) a osodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn daladwy i Weinidogion Cymru gan y ceisydd o fewn 30 o ddiwrnodau o'r arolygiad.

Elin Jones

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru.

8 Gorffennaf 2010

YR ATODLEN

Erthygl 2

Gweithgaredd	*Ffi*
Y diwrnod cyntaf neu ran o ddiwrnod arolygiad ar safle gweinyddol	£1,400 + TAW
Pob diwrnod ychwanegol neu ran o ddiwrnod ar safle gweinyddol	£1,000 + TAW
Arolygiad safle cynhyrchu	£1,000 + TAW

(**1**) O.S. 2010/1780 (Cy. 169).